# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 18 Hydref 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13523

## 165

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### Datganiad gan y Llywydd

Am 13.30, cyhoeddodd y Llywydd y bu James Evans yn llwyddiannus yn y balot ar gyfer Bil Aelod i ofyn am gytundeb y Senedd ar ei gynnig ar gyfer Bil Iechyd Meddwl (Cymru).

### 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 1 gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 14.17

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 9 gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.06

**Atebwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**

Sam Rowlands (Gogledd Cymru): Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog yn eu cael gydag arweinydd Cyngor Sir Ddinbych yn dilyn ei rybudd fod y cyngor yn wynebu methdaliad oni bai bod gwasanaethau a swyddi yn cael eu torri?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.20

Gwnaeth **Natasha Asghar** ddatganiad am - Wythnos Ymwybyddiaeth Syndrom Irlen (16-20 Hydref).

Gwnaeth **Mark Isherwood** ddatganiad am – Diwrnod Menopos y Byd (18 Hydref).

Gwnaeth **Samuel Kurtz** ddatganiad am - 30 mlynedd o Loteri Sir Benfro (12 Hydref)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai - Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol

Dechreuodd yr eitem am 15.25

**NDM8379** John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 'Gwasanaethau Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Gorffennaf 2023.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Medi 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6 Dadl ar ddeiseb P-06-1345 – Dylid gwneud cynlluniau rheoli cadwraeth yn orfodol ar gyfer henebion cofrestredig sydd mewn perygl fel Castell Rhiw'r Perrai

Dechreuodd yr eitem am 16.21

**NDM8380** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-06-1345 Dylid gwneud cynlluniau rheoli cadwraeth yn orfodol ar gyfer henebion cofrestredig sydd mewn perygl fel Castell Rhiw'r Perrai' a gasglodd 10,580 o lofnodion.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Digartrefedd

Dechreuodd yr eitem am 15.56

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8384** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru.

2. Yn credu na fydd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

3. Yn nodi gyda phryder fod nifer yr unigolion sy'n cysgu ar y stryd wedi cyrraedd ei lefel uchaf ers 2020.

4. Yn cydnabod nad yw saith awdurdod lleol yn cofnodi gwybodaeth am farwolaethau digartrefedd.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu rhwydwaith ar gyfer Cymru sy'n cyfateb i'r Combined Homelessness and Information Network, i sicrhau bod digon o ddata ar gael i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru a'i effaith.

Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 39 | 54 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwellliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu'r diwygio dewr, uchelgeisiol a radical ar gyfer y dyfodol a nodir yn y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd a ddatblygwyd fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru.

2. Yn nodi cyfraniad hanfodol y rhai sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd wrth baratoi'r Papur Gwyn a barn Prif Weithredwr Crisis bod yr uchelgais a welir ynddo yn arwain y byd.

3. Yn annog ymatebion i'r ymgynghoriad a fydd yn helpu i lunio'r dull o fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru yn y dyfodol.

Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 15 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM8384** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn croesawu'r diwygio dewr, uchelgeisiol a radical ar gyfer y dyfodol a nodir yn y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd a ddatblygwyd fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru.

2. Yn nodi cyfraniad hanfodol y rhai sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd wrth baratoi'r Papur Gwyn a barn Prif Weithredwr Crisis bod yr uchelgais a welir ynddo yn arwain y byd.

3. Yn annog ymatebion i'r ymgynghoriad a fydd yn helpu i lunio'r dull o fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru yn y dyfodol.

Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 15 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.46

## 9 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.49

**NDM8383** Rhianon Passmore (Islwyn)

Chwalu'r nenfwd dosbarth - adeiladu Cymru egalitaraidd.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.14

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 24 Hydref 2023**